# Cofnodion

## Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Gorffennaf 2021

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr C Ferris (Cadeirydd), M Whitcutt, J Clarke, T Watkins, K Thomas, G Giles and M Evans

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr P Hourahine, C Evans and C Townsend

---

1 **Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd C. Evans, y Cynghorydd P. Hourahine a’r Cynghorydd C. Townsend.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf ar 29 Ebrill 2021**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf ac fe’u cymeradwywyd fel cofnod gwir a chywir.

4 **Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio Leanne Rowlands, Rheolwr newydd y Gwasanaethau Democrataidd, i'r pwyllgor a dywedodd wrth yr aelodau y byddai’n ymgymryd â rôl Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac y bydd yn atebol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o ran cymorth llywodraethu a phrosesau democrataidd. Yn dilyn ymlaen o'r cyfarfod blaenorol, mae'r ddwy eitem ar yr agenda yn faterion rhyng-gysylltiedig ynglŷn â sefyllfa’r

Cyngor o ran Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a’r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, a'r Model Gweithio Newydd ynghyd â’i goblygiadau i'r Aelodau newydd sy'n dod i mewn.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad llafar i'r aelodau ar y mater drwy gyflwyniad. Tynnodd y swyddog arweiniol sylw at ddau ofyniad y ddeddfwriaeth ynghylch cyfranogiad ac ymgysylltiad y cyhoedd:-

a.39 - Dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau llywodraeth leol gan gynnwys gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall
a.40 - Paratoi a chyhoeddi strategaeth ar annog pobl i gymryd rhan (fel uchod) ac adolygu'r strategaeth yn dilyn pob etholiad llywodraeth leol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yn rhaid i'r strategaeth fod ar waith cyn mis Mai 2022.

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o waith ymlaen llaw gydag elfen cyfranogiad y

ddeddf. Mae swyddogion y gweithgor wedi bod yn canolbwyntio ar y 5 gofyniad ar y ddogfen mapio ffordd gyda chysylltiadau clir â chynlluniau cydraddoldeb a strategaethau blaenorol. Hysbyswyd yr Aelodau bod y swyddogion hyn yn ystyried yr hyn y mae’r Cyngor eisoes yn ei wneud o ran sut y gall preswylwyr gyflwyno sylwadau a chael mynediad at gyfarfodydd a phenderfyniadau, megis y wefan, ffurflenni digidol, cwynion.

Ystyrir bod paneli fel y paneli dinasyddion ac ieuenctid yn fforymau defnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau cyhoeddus. Soniwyd bod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol fel y tudalennau Facebook a Twitter yn cael eu defnyddio gan y Cyngor wrth gyflwyno gwybodaeth i'r trigolion, ond mae'r Cyngor yn edrych i weld ble y gallant wella ar wahanol lwyfannau a llenwi'r bwlch i annog ymgysylltiad â'r cyhoedd.

Dywedodd y swyddog wrth yr aelodau fod y Cyngor am wybod pa brosesau democrataidd y mae'r trigolion eisoes yn ymwybodol ohonynt a sut i wella tryloywder gyda'i breswylwyr felly bydd yn defnyddio'r map hwn fel sail i'r hyn y gallai fod ei angen.

Y prif fater a ystyriwyd gan swyddogion yw bod aelodau penodol o gymdeithas sy'n anodd eu cyrraedd, felly maent yn meddwl am strategaethau cynhwysol ar sut i'w cefnogi, eu hannog i ddod yn gynghorwyr a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

Esboniwyd mai'r cam nesaf ar ôl hyn fydd i'r Cyngor lunio cynllun llawer mwy manwl ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a drafftio'r strategaeth ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Sicrhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y pwyllgor fod y gweithgor swyddogion yn gwneud y gwaith fel nad yw'r Cyngor yn dechrau'n llwyr o'r newydd ar y strategaeth er mwyn adeiladu ar yr hyn y mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud gyda chymorth ymgynghori a gweithio gyda'r tîm partneriaeth.

Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw cynnig awgrymiadau ar yr hyn y gallai'r Cyngor ei wneud yn well, ac er enghraifft, canllawiau ar sut i gyfathrebu'n well â chymunedau. Croesawodd y swyddogion arweiniad gan yr aelodau etholedig er mwyn gwneud cynnydd gyda gwaith y grŵp swyddogion.

Croesawodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd gwestiynau gan y pwyllgor ar y strategaeth.

<u>Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:</u>

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar gyn lleied o bobl oedd yn gwylio adnodd ffrydio’r Cyngor. Llawn ac awgrymodd y gallai swyddogion edrych ar sut mae cynghorau eraill yn perfformio a sut maent yn annog ymgysylltu â'r cyhoedd fel y gallant holi cwestiynau i'r Aelodau. Cydnabu'r Aelodau anfanteision hyn gan y gallai arwain at yr un unigolion yn codi cwynion/pryderon i gynghorwyr. Holodd yr Aelodau a allai'r swyddogion ddarganfod beth mae cynghorau eraill yn ei wneud, sut maent yn rheoli cwestiynau cyhoeddus agored yng nghyfarfodydd y Cyngor a sut y gellid gwneud hyn yn addas ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd.

Ymatebodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio drwy ddweud nad oedd unrhyw arfer gorau na model enghreifftiol ar yr hyn y dylai neu na ddylai'r Cyngor ei wneud. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn penderfynu yn y pen draw pa strategaeth sy'n addas iddo a'r broses o wneud penderfyniadau. Cadarnhaodd y swyddog ei fod yn awyddus i adrodd yr adborth hwn yn ôl ond nad yw am awgrymu bod model arfer da ar gael oherwydd dylid ei deilwra i anghenion pob awdurdod lleol unigol.

Soniodd yr Aelodau y gallai ymwneud â’r ffordd y mae'r Cyngor yn cynrychioli ei hun i'r trigolion. Er enghraifft, wrth edrych ar ffotograffau cynghorwyr, drwy gynrychiolaeth weledol, dylai'r Cyngor fod yn gynhwysol drwy gynnwys pob ystod oedran, ethnigrwydd a chefndir bywyd.

Dywedodd y Pwyllgor, pe bai'r Cyngor yn dymuno denu pobl o bob cefndir, y byddai angen iddynt gael eu cynrychioli gan bobl y maent yn teimlo'n gysylltiedig â hwy a gofynnodd yr aelodau a allai hyn fod yn flaenoriaeth uchel. Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd nad oes gan rai unigolion ddiddordmewn bod yn Gynghorydd oherwydd y cam-drin posibl y gallant ei gael ar y cyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd, megis cam-drin hiliol a rhywiaethol. Felly, gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r paneli’n helpu i hyrwyddo gwybodaeth am sut i ddod yn Aelod.

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Arweiniol nad oes panel fel y cyfryw, a chadarnhaodd ei fod yn weithgor swyddogion sy'n weithredol i raddau helaeth wrth wneud y newidiadau hynny. Maent wedi nodi elfennau o'r cynllun ac mae angen mewnbwn yr Aelodau ar ddarnau o waith o'r fath. Rhoddodd y swyddog sicrwydd i'r aelodau y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwaith gweithredol ynghyd â’r newidiadau sy’n cael eu gwneud, ond byddai angen i'r aelodau lywio'r strategaeth gyfranogi ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei gynnwys ar gyfer y drafft cyntaf cyn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.

Ailadroddwyd mai dyma ddechrau'r sgwrs a soniodd y gallai fod angen i'r Pwyllgor drefn cyfarfodydd ychwanegol o hyn ymlaen cyn mis Mai nesaf gan y bydd angen rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau a allent gael copi o gyflwyniad Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a holodd a fyddai'r Cyngor yn ystyried gosod setiau teledu mewn mannau cyhoeddus fel yr amgueddfa, y llyfrgell a Theatr Glan yr Afon i ddangos cyfarfodydd y Cyngor. Soniodd yr Aelodau efallai y gallai siambrau/cyntedd y Cyngor fod yn hygyrch i bobl wylio'r hyn sy'n cael ei drafod yn yr un modd â chyfarfodydd Llywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y gall y Cyngor drefnu sgriniau teledu a gellir trafod sgriniau i ffrydio'n fyw, a fydd yn amodol ar ofynion trwyddedu yn adeiladau'r Cyngor, o dan yr eitem nesaf ar yr agenda. Fodd bynnag, cadarnhaodd y swyddog y gellid cyflawni hyn erbyn mis Mai 2022. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd y gellid anfon copi o'r cyflwyniad mewn e-bost.

Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor am gadarnhad ynghylcherbyn pryd y mae'n rhaid gweithredu'r cyfarfodydd a'r ddeddfwriaeth hybrid.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod yn rhaid eu gweithredu erbyn mis Mai 2022.

Soniodd Aelod o'r Pwyllgor pa mor bwysig ydyw i'r Cyngor a gwleidyddion fod mor dryloyw â phosibl am resymau effeithlonrwydd yn ogystal ag oherwydd bod rhai wardiau wedi profi problemau sylweddol gyda chwynion ynglŷn â rhai pethau nad ydynt yn cael eu hadrodd yn yr un modd mwyach. Er enghraifft, ni all preswylwyr weld a yw car wedi'i barcio'n gyfreithiol ai peidio ar eu stryd gan nad yw trwyddedau parcio yn cael eu defnyddio mwyach. Felly, gofynnodd yr Aelodau a yw'r Cyngor wedi ystyried y pwysau y gallai hyn ei roi ar rai rhannau o Gasnewydd.

Atebodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y byddai'n dibynnu ar sut y mae'r Cyngor yn dewis ymgysylltu â'u hetholwyr ai peidio a hefyd mater i wasanaethau'r ddinas yw’r trwyddedau, ond holl bwynt y ddeddfwriaeth yw annog tryloywder, er mwyn cael pobl i sefyll fel cynghorwyr sydd â pherthynas waith drwy wrando ar aelodau o'r cyhoedd.

Yna, holodd y Pwyllgor a allai'r swyddog gadarnhau bod swyddogion y gweithgor yn amrywiol i sicrhau yr ymdrinnir â’r holl bwyntiau.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Arweiniol, gan ei fod yn weithgor swyddogion, nad yw'r grŵp yn gwneud unrhyw benderfyniadau nac yn newid unrhyw beth gan mai dim ond y manylion y mae'n ymdrin â nhw ar hyn o bryd, ar ddechrau'r broses. Dyma lle mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn dod i'r drafodaeth fel fforwm trawsbleidiol er mwyn rhoi gwybod am unrhyw ymddieithriad o ran aelodau etholedig a'r bobl y maent yn eu cynrychioli wrth fynd i'r afael â'r prif gwestiwn ynghylch sut y gellir gwella hynny.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, ar lefel swyddog, mai dim ond hyn a hyn y gallant ei gynnig i ymgynghori arno, felly mater i'r aelodau yn y pen draw yw penderfynu pa fath o ymgysylltu y maent am ei annog.

Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynglŷn â'r cam-drin ar-lein y gallent ei wynebu am fod yn llygad y cyhoedd a gofynnodd i'r Cyngor bwysleisio'r hyn y mae angen i bobl fod yn ymwybodol ohono a'r hyn y maent yn ymrwymo iddo a dadleuodd un aelod fod y staff yn cael eu diogelu'n fwy na'r cynghorwyr, ac y gallai hyn atal aelodau o'r cyhoedd rhag camu ymlaen i fod yn gynghorydd.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Pennaeth Gwasanaeth fod y Penderfyniad ar Amrywiaeth wedi'i basio yng nghyfarfod y Cyngor cyn yr olaf sy'n golygu nifer o gamau gweithredu ar hyn i annog pobl i ddod i'r Cyngor fel aelodau sydd hefyd yn ymdrin â thrafodaethau am gam-drin ar-lein. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn ymwybodol ei fod yn annog aelodau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o gyfathrebu ond hefyd yn cydnabod y gall fod yn gleddyf deufiniog gan ei fod yn eu gwneud yn agored i gael eu cam-drin ar-lein. Gwrthododd y swyddog honiadau'r aelod bod staff yn cael eu diogelu'n fwy gan y gall yr un math o gamdriniaeth ddigwydd i gyflogai, ond mae'n ymwneud mwy â'r ffaith bod aelodau yn llygad y cyhoedd ac mae angen rhoi gwybod iddynt beth yw eu hawliau a sut y cânt eu diogelu. Bu newidiadau megis peidio â chyhoeddi manylion personol yr Aelodau ar y wefan ond yn hytrach cyhoeddi'r cyfeiriad dinesig.

Gofynnodd y Cynghorwyr a fyddai'r Cyngor yn cynnal seminar rhagarweiniol ar gyfer y rhai sydd â diddordeb i fynd dros amddiffyniadau a'u hawliau personol.

Pwysleisiodd y Pennaeth Gwasanaeth fod yr un gyfraith, o ran diogelwch cyfreithiol, yn berthnasol o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gweithwyr ac aelodau. Os caiff unrhyw beth sy'n bygwth yr unigolyn ei gyhoeddi, eglurodd y swyddog nad oes llawer y gellir ei wneud o'u hochr nhw ac eithrio gofyn i ddarparwyr y cyfryngau cymdeithasol dynnu'r postiadau ac adrodd am y defnyddwyr a'u rhwystro. Hysbyswyd yr Aelodau bod enghreifftiau o swyddogion ac aelodau sydd wedi derbyn negeseuon e-bost bygythiol ac o dan weithredoedd o'r fath, ystyrir yr amddiffyniadau sydd ar waith bob amser. Fodd bynnag, gellir ystyried cyflwyno seminar i sicrhau y byddai aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol.

Aeth y Pwyllgor ymlaen i ofyn sut y byddai'r gwaith hwn ar y strategaeth yn effeithio ar y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, ac os felly, beth fyddai angen i'r Cyngor ei wneud am hynny a sut y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn effeithio ar yr hyn y mae'n ei drafod.

Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn cyfarfod yn rhanbarthol a gan iddo fynd drwy'r Cyngor ddydd Mawrth, na fyddai hyn yn effeithio arno. Esboniwyd nad yw'r bwrdd partneriaeth yn gwneud penderfyniadau yn hynny o beth ac y byddai'n mabwysiadu'r cynllun ar gyfer Gwent gyfan, ond eglurodd ei fod yn benderfyniad i'r unigolion ar sail eu lles ac o ran gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu, bydd ar lefel leol. Felly, ni fydd y strategaeth cyfranogiad y cyhoedd yn effeithio ar hynny o gwbl, gan fod y Byrddau Lleol yn dod i ben yn 2023. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, boed yn rhanbarthol neu'n lleol, yn fwrdd o gyrff deddfwriaethol sy'n pennu amcanion a pholisïau lles y rhanbarth; nid corff sy'n gwneud penderfyniadau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r awdurdodau lleol fydd yn penderfynu sut i lywio'r strategaeth hon yn eu hardal a Chyngor Dinas Casnewydd fydd yn penderfynu beth y gallai ei wneud i gyflawni'r amcanion les

Holodd y Pwyllgor, os yw’r strategaeth cyfranogiad ond yn ddilys tan yr etholiadau y flwyddyn nesaf, a fyddai'r Cyngor yn ystyried cael sesiwn galw heibio anwleidyddol i 'gwrdd â'r cynghorwyr' yng nghyntedd y ganolfan ddinesig dim ond i siarad â phobl. Gallai roi cyfle i'r cyhoedd weld yn uniongyrchol yr hyn y mae aelodau'n ei brofi o ddydd i ddydd, a chwalu unrhyw fythau o sut mae gwleidyddion yn mynd allan am brydau bwyd yn bennaf. Gofynnodd y pwyllgor a ellid trefnu hyn ar gyfer mis Hydref/Tachwedd 2021.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth drwy dynnu sylw at y ffaith y bydd cyfnod yr etholiad yn dechrau’n gynnar y flwyddyn nesaf i’r Cyngor ac y gellid camddehongli'r sesiwn hon fel canfasio gwleidyddol felly atgoffodd yr aelodau bod yn rhaid iddynt fod yn ofalus ynghylch sesiynau cwrdd a chyfarch cyn unrhyw etholiadau mawr.

Esboniwyd i'r Pwyllgor bod yn rhaid adolygu hyn ar ôl pob etholiad bob 5 mlynedd. Rhywbryd o fewn y cyfnod hwnnw, byddai'r pwyllgor a'r Cyngor yn ei adolygu.

O ran cyfathrebu â thrigolion, drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gallant gyrraedd llawer mwy o aelodau o'r gymuned yn hytrach nag am amser penodol mewn cyntedd y ganolfan ddinesig. Er enghraifft, trafod cyfarfodydd ward fel ffordd o gael trigolion i ymgysylltu â'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon ac nid yw'r Cyngor wedi datblygu adroddiadau blynyddol yr Aelodau'n llawn ac atgoffwyd yr aelodau y gallant ychwanegu mwy atynt cyn eu cyhoeddi er mwyn esbonio i drigolion yr hyn y maent yn ei wneud.

Cydnabu Aelod o'r Pwyllgor broblem logisteg y sesiwn galw heibio ond gofynnodd hefyd i'r Cyngor gydnabod bod rhai rhannau o gymdeithas nad ydynt ar y cyfryngau cymdeithasol gan nad yw pawb yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg. Cytunodd yr Aelodau ei bod yn anodd gan nad yw pobl yn cymryd rhan yn gyffredinol os nad oes ganddynt. wybodaeth am y Cyngor. Felly, holodd yr Aelodau beth fyddai'r ffordd orau o fynd i’r afael â’r rhwystr hwn ac a ellid trefnu cwrdd â’r ymgeiswyr ar ôl yr etholiad?

Atebodd y Pennaeth Gwasanaeth drwy ddweud y bydd y tîm yn ceisio darganfod beth mae cynghorau eraill yn ei wneud ac efallai'n ystyried cynnal seminar i drafod defnydd aelodau o’r cyfryngau cymdeithasol ac amddiffyniadau rhag hyn. O ran y sesiwn galw heibio, gall y Cyngor edrych ar hynny fel y byddai ar gyfer ymgeiswyr posibl.

Pwysleisiwyd i'r Aelodau y byddai angen dilyn mesurau ymbellhau cymdeithasol, a bydd angen iddo fod yn anwleidyddol.

Cododd y swyddog bryder ynghylch aelodau presennol y Cyngor a darpar aelodau o'r Cyngor yn cyfarfod ag aelodau'r cyhoedd, fodd bynnag, pe bai'n fwy o ymgyrch recriwtio, yna gallai'r CLlLC ei gefnogi. Y rheswm am hyn yw na fyddai neb gwell i siarad â nhw nag aelodau presennol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallai'r tîm edrych ar hynny gyda'r pwyntiau defnyddiol a cheisio eu cynnwys yn y strategaeth a fydd yn cael ei dwyn yn ôl i'r cynghorwyr i’w thrafod ymhellach.

5 **Model Gweithio Newydd**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r Model Gweithio Newydd er mwyn agor deialog ar gyfer mewnbwn yr Aelodau. Esboniwyd mai'r sefyllfa bresennol oedd bod y Cabinet wedi ystyried y papur ar 7 Gorffennaf a gafodd ei gymeradwyo mewn egwyddor, yn amodol ar yr ymgynghoriad â staff ac undebau llafur ac felly bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet yn yr hydref. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn cynnwys y pedwar maes sy'n sail i'r model newydd a pherthnasedd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r Model Gweithio Newydd yn ystyried goblygiadau gweithio o bell i ganiatáu ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gartref un diwrnod yr wythnos, ond mae'r model yn ceisio cefnogi'r buddsoddiad mewn lles, gan ystyried y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn arbennig a chefnogi iechyd meddwl ar ôl y pandemig.

O ran gweithio o bell, bydd gwahanol dechnegau ar waith i barhau i ymwneud â gweithlu gwasgaredig.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor, o fewn y model, yn edrych ar bennu'r defnydd gorau posibl ar gyfer y ganolfan dinesig ac adeiladau'r Cyngor er mwyn cyflawni amcanion y Cyngor. Mae'r swyddogion yn sicrhau y byddai hyn yn bodloni'r gofynion y cyhoedd ac yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r adeilad i helpu gyda'r costau parhaus a sicrhau cyfleoedd gweithio hyblyg.

Sicrhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Pwyllgor mai'r Ganolfan Ddinesig fydd y brif ardal weinyddu, wedi'i rhannu'n grwpiau penodol o staff, ystafelloedd cyfarfod a derbynfa sydd ar gael i'r cyhoedd. Hysbyswyd yr Aelodau bod ardaloedd eraill y gellid eu hagor ar y safle i eraill ac maent hefyd yn edrych ar atebion technoleg newydd megis sut y gallai'r system archebu ystafell gefnogi'r cyfleuster tracio ac olrhain.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Cyngor am sicrhau bod yr offer yn diwallu anghenion TG y Cyngor o dan y model gweithio newydd a sut y gallai gefnogi'r datblygiad o fewn y Strategaeth Ddigidol mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd hybrid.

Sicrhawyd y Pwyllgor y darperir ar gyfer trafodaeth yr Aelodau er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol ac mae rhan 3 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i wneud darpariaethau ar gyfer mynediad i'r cyfarfodydd hyn. Bwriad yr hyblygrwydd hwn oedd denu grŵp mwy amrywiol o aelodau i Lywodraeth Leol. Mae cynlluniau i gynnal cyfarfodydd hybrid erbyn y flwyddyn nesaf gan fod y Cyngor yn gweithio gyda'r cyflenwr presennol i roi cyngor ar yr hyn sydd angen ei weithredu yn Siambr y Cyngor.

Ar nodyn olaf, soniodd y swyddog am les cysylltiadau'r Cyngor â'r aelodau a chydnabu effaith gweithio gwasgaredig ar staff a'i aelodau. Ailadroddwyd bod gan staff ac aelodau yr un mynediad at e-ddysgu a chymorth. Felly, gofynnwyd i'r pwyllgor a ddylai'r Cyngor wella'r model hwn gan fod y cabinet wedi cytuno'n ddiweddar y dylid ystyried unrhyw ymyriad sy'n benodol i aelodau o fewn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Croesawodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor.

<u>Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:</u>

Mynegodd Aelod o'r Pwyllgor ei bryderon gan fod y ganolfan ddinesig yn adeilad hanesyddol gwych. Trafodwyd sawl gwaith am y dyfodol, pa mor amhriodol ydyw i staff sy'n gweithio yn y swyddfa ddinesig, gan fod swyddfeydd heb ffenestri, er enghraifft. Tybed beth yw'r farn am hyn ac o ran costau. Byddai cost enfawr i foderneiddio'r adeilad ond dywedodd ei bod yn wych gweld gwaith yn cael ei wneud. Fodd bynnag, holodd y pwyllgor a oes unigolion yn gofyn am gael defnyddio lle yn y swyddfa ddinesig.

Atebodd y Pennaeth Gwasanaeth drwy esbonio y byddai hyn, yn dechnegol, ar gyfer ffrwd waith y model staffio gwasgaredig. Roedd yr adroddiad i'r Cabinet yn ei gwneud yn glir mai prif sbardun y syniad hwn oedd peidio â gwneud arbedion na chynhyrchu incwm o'r adeilad. Mewn ymateb i bryderon, roedd y newidiadau i'r ganolfan ddinesig o ganlyniad I gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a ffordd o ddarparu gwasanaethau. Mae'r capasiti sbâr yn y ganolfan ddinesig yn sgil-gynnyrch y model gweithio newydd.

Hysbyswyd yr Aelodau o’r mater hirdymor y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael ag ef o fewn y cynllun gweithredu i drafod gyda'r undebau sut y bydd hynny'n gweithio gyda phatrymau gweithio hyblyg. Er enghraifft, beth fydd yn cael ei gadarnhau – faint o bobl all weithio o ardaloedd dynodedig yn y swyddfa ddinesig ar un adeg a sut i gyfyngu ar niferoedd ac edrych ar logisteg hynny.

Os oes gan y Cyngor nifer o ystafelloedd sbâr, yna byddai angen i'r Cyngor ystyried sut y byddent yn cael eu defnyddio ar ôl cytuno ar yr holl bwyntiau blaenorol.

Er enghraifft, gellid defnyddio'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus o ran effeithlonrwydd defnydd a rennir. Gallai fod yn anymarferol ond mae'n uchelgais hirdymor i edrych ar hyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd y swyddog fod y ffocws yn fwy ar y staff a bod angen i’r trefniadau fod ar gyfer y staff.

Ystyriwyd masnacheiddio flynyddoedd yn ôl ac yn sicr nid yw'n un o'r amcanion y tu ôl i'r model gweithio gan nad oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau cyfredol i isosod y ganolfan ddinesig. Maent am feddwl am ddefnydd yr adeilad, ond esboniwyd ei bod yn anodd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y cynlluniau oherwydd bydd yn un o rannau olaf y model i'w ystyried.

Cydnabu'r Pwyllgor nad yw'r hen normal yn mynd i ddychwelyd gan na fydd pethau yr un fath eto a diolchodd i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd am y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig. Gofynnodd yr Aelodau a allai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd rannu’r cyflwyniad gydag aelodau'r pwyllgor fel eu bod yn gwybod beth sydd ar yr agenda o ran y materion hyn ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai’n anfon y cyflwyniad at yr Aelodau.

Cyfeiriodd Aelod o'r Pwyllgor at adran aelodau'r Ddeddf Llywodraeth Leol, lle mae’n sôn am Gydnabyddiaeth Ariannol a chymorth TG. Nid oes gan y Cynghorwyr lawer o lais yn hynny oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ei anfon i ymgynghoriad. Felly, mae angen cyflwyno'r diweddariadau technoleg yn fwy rheolaidd i'r Aelodau fel eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Tynnodd y pwyllgor sylw at y ffaith bod Aelodau'n cael anawsterau ar y systemau a ddefnyddir ac ansawdd yr offer sydd ganddynt a rhaid i Gynghorwyr fynd i mewn bob 4 mis i wirio datblygiadau busnes o fewn y system TG. Pwysleisiodd yr Aelodau eu bod yn profi dryswch ynghylch defnyddio systemau a diweddariadau meddalwedd.

Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ei fod, mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth ariannol, yn dibynnu ar gyd-destun yr hyn y maent yn edrych ar arno, er enghraifft mae lwfansau aelodau yn cael eu pennu gan y panel taliadau, felly nid oes disgresiwn gyda hynny. O fewn yr adroddiad, Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol, ni waeth pa fodel y bydd y Cyngor yn ei fabwysiadu, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol gael cyfleuster o fewn y ganolfan ddinesig i aelodau ddeialu i gyfarfodydd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd problemau logistaidd o ran sut yr ydym yn cynnal y cyfarfodydd hyn. Bydd hyn yn rhwystr i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd ystyried yn nes at yr amser

Gan y bydd ffordd newydd o weithio, ni fydd yr Aelodau eu hunain yn bresennol yn y ganolfan ddinesig mor aml ag o'r blaen, felly hoffent drafod beth fyddai orau er lles yr Aelodau, fel y gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gynghori'r Cyngor am effaith y model gweithio gwasgaredig hwn.

Aeth y swyddog ymlaen i egluro y bydd effaith cyfarfodydd hybrid yn dibynnu ar ba mor ddibynnol fydd y Cyngor ar weithrediadau systemau TG. Er enghraifft, o ran y taliadau cydnabyddiaeth, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a oedd pecyn TG yr

aelodau’n ddigo da ar gyfer yr hyn y bydd ei angen wrth symud ymlaen. Yn y gorffennol, cytunodd yr aelodau i gael cyfrifiadur llechen a gliniadur ynghyd â ffonau symudol ar gyfer uwch aelodau ond bydd yn rhaid i'r pwyllgor ailystyried pa ddyfeisiau y bydd eu hangen ar aelodau er mwyn gallu darllen eitemau ar yr agenda tra'u bod wedi mewngofnodi i gyfarfod Teams.

Felly, esboniwyd i'r Aelodau mai dyma'r amser i edrych ar gymorth TG i Aelodau a gweld beth y gellir ei wella. Mae'r Cyngor yn talu am y cymorth TG sydd ei angen ar yr Aelodau, a nodwyd y cafwyd pryderon yn flaenorol yn ymwneud â'r band eang a oedd gan Aelodau yn eu cartrefi – p'un a oedd yn ddigonol ai peidio. Pe na bai'n ddigonol, holwyd a ddylai'r Cyngor dalu am fil band eang yr Aelodau i'w uwchraddio. Pwysleisiodd y swyddog mai'r materion hynny yw'r math y mae'r Cyngor am gael barn arnynt yn uniongyrchol gan yr Aelodau.

Holodd Aelod o'r Pwyllgor a fyddai modd cael hyrwyddwr TG i gynorthwyo Cynghorwyr gyda'u hoffer digidol.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth mai'r Cynghorydd Mayer fyddai hwn mewn gwirionedd. Gan ei fod yn dod o dan bortffolio'r Aelod Cabinet ar gyfer atebion technegol drwy adnoddau. Fodd bynnag, o ran yr offer, os nad yw'r hyn sydd gan yr Aelodau yn addas i'r diben, dylid hysbysu’r Cyngor fel y gallai’r tîm digidol edrych ar beth yw'r opsiynau.

Cafwyd trafodaeth ymysg yr Aelodau ar sut brofiad yw gweithio o bell iddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau'n cytuno bod yr offer o safon dda, ond maent yn cael llawer o broblemau gyda'r system sy’n cael ei defnyddio. Gan fod systemau’r rhan fwyaf o’r aelodau’n chwalu ac felly mae angen edrych ar y system.

Cydnabu'r Aelodau eu llwyth gwaith uwch ond nid yn sgil cyfarfodydd, ond oherwydd mwy o gwynion gan y cyhoedd. Roedd yr aelodau'n derbyn y mantais o beidio â theithio felly roeddynt yn tueddu i fynychu mwy o gyfarfodydd. Mantais yw eu bod hefyd yn fwy parod ar gyfer diwrnodau cyfarfod prysur gan nad ydynt yn gwastraffu amser cyn mynychu.

Mewn ymateb, nododd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd sylwadau'r Aelodau a sicrhaodd y pwyllgor fod y tîm digidol yn edrych ar bapur cymharu ar hyn o bryd i ystyried sut i fynd ati yn y dyfodol.

Soniodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi addasu'n dda iawn gyda thechnoleg er gwaethaf y pryderon a fynegwyd ynghylch pa mor anodd y gall fod i fynychu cyfarfod pe bai problemau technegol, gan ei fod wedyn yn effeithio ar gofnod presenoldeb y cynghorydd pan na fyddai'n fai arno, sy'n cael effaith ganlyniadol i'r cyhoedd pan fyddant yn gwirio cofnodion presenoldeb.

Cafwyd trafodaeth a nododd Aelod y gallai deimlo'n ynysig ar adegau ond hefyd yn hapus gyda’r ffaith bod y system yn dda i'w defnyddio fel pwynt canolog a chanolfan gyfathrebu ond yr hoffai i'r Cyngor edrych a fyddai unrhyw lwyfannau eraill i'w defnyddio ar gyfer cyfarfodydd ar wahân i Microsoft Teams, gan fod y Cyngor wedi profi problemau gyda rhanddeiliaid strategol fel aelodau o'r Heddlu nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfodydd Teams pwysig. Felly, gofynnodd yr Aelodau a allai fod yn bosibl cofnodi presenoldeb yn wahanol drwy gofnodi pwy geisiodd fewngofnodi ond sydd wedi cael problemau technegol wrth wneud hynny fel na fyddent yn cael eu marcio'n absennol.

Ymatebodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio drwy esbonio nad yw mor hawdd yn anffodus gyda'r Rheoliadau. Mae presenoldeb yn golygu mynychu o bell, felly nid yw bwriadu neu geisio deialu i mewn yn ddigon da ar gyfer y cofnod. Atgoffwyd yr Aelodau bod angen iddynt fynd ar-lein 15 munud cyn y cyfarfod. Os oes cysylltiad ac os yw wedi mewngofnodi'n llwyddiannus ond bod yr Aelod yn cael problemau – byddai’r cofnod yn nodi ei fod wedi mynychu.

Ond pe bai Aelod yn galw'r tîm Gwasanaethau Democrataidd ac yn dweud nad yw’n gallu ymuno â’r cyfarfod a gofyn am ei gofnodi’n bresennol, yna ni chaniateir hynny.

Felly, os yw'r Aelod yn cael anawsterau TG, mae'n rhoi ychydig funudau i'r tîm roi cymorth iddo.

Soniodd Aelod o'r Pwyllgor fod y ddolen yn torri weithiau. Pan fyddant yn ceisio ffonio'r tîm, does dim modd cael gafael arnynt.

Atebodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod y system ddyletswydd a rennir wedi'i dosbarthu yn y cylchlythyr ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd. Ar gyfer llinell ffôn ar sail rota, dim ond un alwad y maent yn ymdrin â hi ar y tro ar y llinell gyffredinol y diwrnod hwnnw.

Gofynnodd yr Aelodau a allai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd anfon y rhif generig fel y gallant gael y rhif uniongyrchol cywir.

Cytunodd y swyddog i hyn ond atgoffodd fod e-bost yn rhoi manylion strwythur y tîm ynghyd â'r manylion cyswllt eisoes wedi'i anfon y mis hwn, ond byddai'n ei anfon eto i sicrhau ei fod yn cael ei dderbyn.

Gan gyfeirio'n ôl at y pecyn TG, cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith os yw'r Aelodau'n hapus â'r pecyn a ddarparwyd, yna gall y Cyngor drafod dibynadwyedd a chymorth gyda'r Tîm Digidol.

Croesawodd Aelod o'r Pwyllgor gyfeiriad blaenorol Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd at yr adroddiad ynglŷn ag effeithlonrwydd Microsoft Teams.

Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth, wrth edrych ar gymharu systemau TG, mai'r polisi corfforaethol yw defnyddio Microsoft Teams i ddechrau oherwydd y materion diogelwch o ran Zoom. Nid oes ots gan y Cyngor bod unigolion yn ei ddefnyddio i ymuno â chyfarfodydd eraill, ond mae'n creu problemau diogelwch data i'r Cyngor os caiff ei ddefnyddio i gynnal cyfarfodydd y Cyngor, ond bydd yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion ar hynny.

Mater arall a grybwyllwyd hefyd oedd cost y drwydded ar gyfer yr holl systemau gweithredu, gan fod Microsoft Teams wedi'i gynnwys o fewn y gost. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn talu'n gorfforaethol am fwy o drwyddedau, a byddai'n costio dros £100k am drwyddedau ychwanegol gyda phroblemau diogelwch a chodi costau. Fodd bynnag, bydd hyn i gyd yn yr adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno gan y tîm digidol.

Felly, oherwydd diffyg llwyfannau diogel, mae'r grŵp tîm Digidol yn fwy cymwys i roi gwybodaeth yn yr adroddiad hwnnw.

<u>Cytunwyd:</u>

Cydnabu'r Pwyllgor hyn a nododd fod y gefnogaeth gan y swyddogion wedi bod yn rhagorol o ran datrys problemau, ac nid oedd hyn yn feirniadaeth ar y Gwasanaethau Democrataidd na'r Gwasanaethau Adnoddau a Rennir.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i nodi rhif ffôn uniongyrchol y swyddog sy'n cynnal y cyfarfod ar waelod agendâu fel y gellir ei ffonio i gael cymorth yn y dyfodol pe bai problemau yn codi.

## 6 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Yn dibynnu ar faint o gynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud gyda'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, mae'n dibynnu ar gynnydd y drafft. Argymhellodd Pennaeth y Gwasanaeth y gallai fod yn ddefnyddiol cael cyfarfod cynharach ym mis Medi i wneud rhywfaint o gynnydd ar y darn o waith deddfwriaethol hwn.

Cytunodd y Pwyllgor i edrych ar ddyddiadau yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40am.

7 **Gweddarllediad o'r Pwyllgor**

Democratic Services Committee, 22 July 2021 - YouTube